

## NEWYDDION TEULUOL A CHYHOEDDIADAU

### Y SULIAU NESAF

#### Hydref 11:

Gwasanaeth Diolchgarwch

Taflen: Dafydd Roberts

#### Hydref 18:

Y Parchg. Hywel Wyn Richards

Llywydd: Rhiannon Humphreys

Taflen: Ros Evans

#### Hydref 25:

Y Parchg. Gethin Rhys

Llywydd: Wyn Rees

### Y FFOADURIAID

Rydyn ni wedi sicrhau cyflenwad o amlenni casglu arbennig ar gyfer argyfwng gan Cymorth Cristnogol er mwyn i ni fedru cyfrannu'n ariannol at eu hapêl i helpu ffoaduriaid yn Ewrop a'r Dwyrain Canol.

Os na chawsoch amlen eisoes, mynnwch un heddiw. Byddwn yn eu casglu dros y mis nesaf, er mwyn i'n cefnogaeth ni gael dechrau'n ddi-oed.

### CASGLIAD BWYD A DILLAD

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gyflenwad digonol o ddillad ar y funud, felly fydd dim casglu yn ystod y misoedd nesaf. Maen nhw'n gofyn yn garedig i ni fod yn barod i ail-ddechrau yn y flwyddyn newydd, fel bo'r galw.

**Bydd y casgliadau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun yn parhau tra bo'r capel yn cael ei atgyweirio a bydd y bocs casglu yng nghefn Neuadd y Pentref bob bore Sul.** Maen nhw'n gofyn a allwn ni gasglu bocsys wyau hefyd, gan fod ffermwr lleol wedi addo cyflenwad o wyau iddyn nhw.

### ELUSENNAU 2016

Daeth hi'n amser dewis elusennau ar gyfer rhannu cynnwys yr amlenni brown unwaith eto. Elusennau bach lleol yw'r rhain fel arfer, rhai y mae ychydig gannoedd o bunnoedd yn gwneud gwahaniaeth iddyn nhw. Os oes gennych awgrymiadau, rhochw wybod i [John, johnllewt@hotmail.com](mailto:John.johnllewt@hotmail.com) 01443 218077 neu **Ann**, 0292 0891 344 [ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com) cyn diwedd mis Hydref.

### Y DAFLEN A'R SGRINIAU

Rydym wirioneddol angen rhagor o bobl i helpu gyda'r daflen a'r sgriniau. Os medrwch helpu, mynnwch air gydag Emlyn Davies ar 02920 891344 neu [emlyn.davies@which.net](mailto:emlyn.davies@which.net)

### Cwmni'r Frân Wen



Bryn Fôn a Gwenno Hodgkins  
Canolfan Gartholwg  
8fed Hydref 7.30 p.m.  
Tocynnau £8 a £6 (cons)  
01443 219589

### TAFOD Y TAB

Rydym yn chwilio am olygydd i'r rhifyn nesaf o **Tafod y Tab** sydd i fod i weld golau dydd yn gynnar ym mis Ionawr. Os ydych yn fodlon bod yn gyfrifol amdano y tro hwn, siaradwch gyda Lowri Roberts neu Emlyn Davies.

## Croeso i'r Tabernacl

Bore Sul 4 Hydref 2015

Gwasanaeth Cymun yng ngofal aelodau

Llantrisant, Meisgyn a Thonyrefail

Cymun: Allan James

Cyfeilydd: D. Carey Williams

### Trefn yr Oedfa

**Thema: Chwaraeon**

Datganiad: *'Comfort ye my people'* (allan o'r *Messiah*, Handel)

Galwad i Addoli

**Emyn 1** (710): *'Arglwydd Iesu, dysg im gerdded'*

Stori i'r Plant: *Y Gêm* (Gareth Ff. Williams)

Gweddi

Gweddi'r Arglwydd

**Emyn 2** (814): *'Ein gwlad a'n pobol gofiwn nawr'*

(Gwneir y casgliad yn ystod yr emyn)

Datganiad: *'He shall feed his flock'* (allan o'r *Messiah*, Handel)

(Y Plant i'r Ganolfan)

Crefydd a Chwaraeon

**Emyn 3** (805): *'Rho i mi nerth i wneud fy rhan'*

Gorau chwarae, cyd-chwarae

**Emyn 4** (660): *'Wrth nesu at dy allor lân, O Dduw'*

Y Cymun

Datganiad: *'How beautiful are the feet'* (allan o'r *Messiah*, Handel)

**Emyn 5** (793): *'Duw fo yn fy mhen ac yn fy ymresymiad'*

Datganiad i Gloi: *'How lovely are the messengers'* (allan o 'St Paul', Mendelssohn)

**Cofiwch y cynhelir cyfarfod i rieni'r Twmiaid Bach bob nos Sul**

### EMYN 1 (710)

Arglwydd Iesu, dysg im gerdded  
drwy y byd yn ôl dy droed;  
'chollodd neb y ffordd i'r nefoedd  
wrth dy ganlyn di erioed:  
mae yn olau  
ond cael gweld dy wyneb di.

Araf iawn wyf fi i ddysgu,  
amyneddgar iawn wyt ti;  
mae dy ras yn drech na phechod -  
aeth dy ras â'm henaid i;  
paid rhoi fyny  
nes im gyrraedd trothwy'r drws.

Ar fy ngyrfa dysg im weithio  
gwaith y nef, wrth olau ffydd,  
nes im ddyfod yn gyfarwydd  
â gorchwylion gwlad y dydd;  
dysgu'r anthem  
cyn cael telyn yn y côr.

Dysg im siarad yn fwy nefol,  
fel preswylwyr pur y wlad;  
dysg im feddwl, fel yr angel,  
yn fwy annwyl am fy Nhad:  
wedi'r dysgu,  
ti gei'r mawl a'r enw byth.

ELFED,  
1860-1953

### EMYN 2 (814)

Ein gwlad a'n pobol gofiwn nawr  
mewn gweddi wrth dy orsedd fawr;  
gad i'n teuluoedd geisio byw  
mewn heddwch gyda thi, O Dduw.

Yng nghanol anawsterau'r oes  
boed inni dderbyn golau'r groes  
a chofio'r Gŵr a'i rhoes ei hun  
i ddwyn dynoliaeth ar dy lun.

Lle mae casineb, cariad fo,  
a lle mae cam, maddeuant rho;  
yn lle amheuaeth dyro ffydd,  
a gobaith lle mae calon brudd.

Llawenydd fo i'r galon drist;  
yn lle tywyllwch, golau Crist;  
d'ewylllys wneler yn y byd  
i lwyddo'r deyrnas fawr o hyd.

Gweddiwn, Arglwydd, arnat ti  
dros lywodraethau'n daear ni:  
rho iddynt weledigaeth glir  
i ganfod rhyddid yn y gwir.

RAYMOND WILLIAMS,  
1928-90

### EMYN 3 (805)

Rho imi nerth i wneud fy rhan  
i gario baich fy mrawd,  
i weini'n dirion ar y gwan  
a chynorthwyo'r tlawd.

Ehanga 'mryd a gwared fi  
rhag culni o bob rhyw,  
rho imi weld pob mab i ti  
yn frawd i mi, O Dduw.

Gad imi weld dy wyneb-pryd  
yng ngwedd y llesg a'r gwael,  
a gwrando'r cwyn nas clyw y byd  
er mwyn dy gariad hael.

E. A. DINGLEY, 1860-1948  
cyf. NANTLAIS, 1874-1959

### EMYN 4 (660)

Wrth nesu at dy allor lân, O Dduw,  
rho imi nawr dy weld, dy weld a byw:  
O cadw di bob meddwl drwg i ffwrdd  
ac na foed un bradychwr wrth dy ffwrdd.

Os yw fy mhechod, Iesu mawr, yn fwy  
i'm golwg yma ger dy farwol glwy',  
fan yma hefyd, drwy dy ryfedd groes,  
y llwyr ddiddymir beiau mwyaf f'oes.

Na foed yn edrych arnaf ond dy hun,  
tydi all weld a maddau beiau dyn;  
ac na ddisgynned bellach ar fy nghlyw  
ond llais tangnefedd a maddeuant Duw.

CRWYS, 1875-1968

### EMYN 5 (793)

**Duw fo yn fy mhen ac yn fy ymresymiad;  
Duw fo yn fy nhrem ac yn f'edrychiad;  
Duw fo yn fy ngair ac yn fy siarad;  
Duw fo yn fy mron ac yn fy nirnad;  
Duw ar ben fy nhaith, ar fy ymadawiad.**

HORE BEATE MARIE VIRGINIS, 1514  
cyf. R. GLYNDWR WILLIAMS